

# Agenda



## Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

---

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Chwefror 2021

Amser: Time Not Specified

Lleoliad:

At: Cynghorwyr:

---

### Eitem

### Wardiau Dan Sylw

- 1 Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden: 2021/2  
Cyfleusterau Hamdden  
**Gofynnodd y Cyngorydd J. Watkins:**  
O ystyried y cyfleuster Chwaraeon hardd ar safle Campws Caerllion ynghyd â'r lle i ddatblygu'r cyfleuster ymhellach drwy ychwanegu pwll nofio ac ati a hefyd y caeau chwaraeon sydd ar gael ar y safle, pam na fanteisiodd yr CDC ar y cyfle i drafod prynu'r cyfleuster gyda'r bwriad o'i ddatblygu am gost is na'r hyn a fydd yn cael ei ysgwyddo yn y cynnig presennol? Oni fyddai hyn wedi bod yn well defnydd o arian cyhoeddus?
- Ymatebodd y Cyngorydd Harvey:**  
Mae cadw'r Neuadd Chwaraeon fel rhan o unrhyw ailddatblygiad ehangach ar safle Caerllion wedi'i annog erioed, ond roedd y cyfleuster mewn dwylo preifat. Roedd y perchnogion blaenorol, Prifysgol De Cymru, yn glir na fyddent yn cadw'r rhan hon o'r safle ac na fyddent yn ei gweithredu eu hunain. Er bod swyddogion y Cyngor wedi cymryd rhan mewn trafodaethau cychwynnol gyda PDC ynghylch dyfodol y cyfleuster chwaraeon, cadarnhaodd adroddiad y Brifysgol ei hun fod y ganolfan yn gweithredu ar sail colled ac y byddai angen cymhorthdal blynyddol. Fel y nodwyd gennych yn gwbl briodol, arian cyhoeddus yw hwn – hyd yn oed gyda buddsoddiad pellach, nid oedd disgwyl i incwm dalu'r costau gweithredu ac felly ni ellid cyflwyno achos busnes ariannol cadarn dros gaffael y safle. Bydd y cynigion ymgynghori ar gyfer canol y ddinas yn darparu cyfleusterau hamdden cynaliadwy o'r radd flaenaf, mewn lleoliad sy'n hygyrch i bob cymuned yng Nghasnewydd, tra hefyd yn galluogi buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru mewn cyfleusterau addysg bellach newydd sbon yng nghanol y ddinas.

Person cyswllt: ,

Ffôn:

E-bost: Cabinet@newport.gov.uk

Dyddiad cyhoeddi: Date Not Specified